Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Arolygiad Practis Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf

## Canolfan Ddeintyddol Tonyrefail

11 Tachwedd 2014

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall arall AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copiau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Y Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhydycar**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn**: 0300 062 8163
**Ebost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan**: www.agic.org.uk


ISBN Digidol 978-1-4734-2775-4
© Hawlfraint y goron 2015

# Cynnwys


1. Cyflwyniad ........................................................ 2
2. Methodoleg ........................................................ 2
3. Cyd-destun ........................................................ 4
4. Crynodeb ........................................................ 5
5. Canfyddiadau ........................................................ 7

Profiad y Claf ........................................................ 7

Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd yng Nghymru ........................ 9

Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ........................................................ 12

Ansawdd yr Amgylchedd ........................................................ 15

6. Y Camau Nesaf ........................................................ 17

Atodiad A ........................................................ 18

## 1. Cyflwyniad

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Ganolfan Ddeintyddol Tonyrefail yn 2 Pritchard Street, Tonyrefail, CF39 8PA yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf ar 11 Tachwedd 2014.

Ystyriwyd ac adolygwyd y meysydd canlynol gennym yn ystod yr arolygiad:

- Ansawdd profiad y claf
- Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd yng Nghymru
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

## 2. Methodoleg

Nod arolygiadau AGIC o Bractisau Deintyddol Cyffredinol yw darganfod pa mor dda mae practisau'n bodloni'r safonau yn *Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru*[1].

Adolygwyd dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau gennym yn ystod yr arolygiad, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)
- Cyfweliadau gyda staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Holiaduron AGIC a gwblhawyd gan gleifion

---

[1]Daeth Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru i rym o 1 Ebrill 2010. Mae'r fframwaith o safonau yn nodi'r gofynion o ran yr hyn a ddisgwylir gan bob gwasanaeth iechyd ym mhob lleoliad yng Nghymru.
www.weds.wales.nhs.uk/opendoc/214438

- Archwilio offer a’r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (pan yn berthnasol)

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o’n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a’r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o’r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o’r defnydd o safonau yn y practis yr ymwelwyd ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

## 3. Cyd-destun

Mae Canolfan Ddeintyddol Tonyrefail yn darparu gwasanaethau i gleifion yn Nhonyrefail. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a adnabyddir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf. Mae'r practis yn cyflogi tîm staff sy'n cynnwys un deintydd, un derbynnydd/cynorthwyydd practis, un nyrs ddeintyddol a rheolwr practis (sydd hefyd yn rheoli practis deintyddol IDH arall yng Nghwm Taf).

Darperir amrywiaeth o wasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Triniaethau diagnostig a sgrinio
- Archwiliadau iechyd y geg
- Triniaeth ar gyfer clefydau
- Deintyddiaeth frys
- Deintyddiaeth plant
- Deintyddiaeth breifat

## 4. Crynodeb

Ystyriodd AGIC sut mae Canolfan Ddeintyddol Tonyrefail yn bodloni'r safonau gofal yn Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd yng Nghymru.

Diddymwyd y practis deintyddol blaenorol bedair blynedd yn ôl ar adeg pan brynwyd y busnes gan Integrated Dental Holdings (IDH). Mae IDH wedi cadw cyfrifoldeb cyffredinol am weithrediad y ganolfan ddeintyddol yn 2 Pritchard Street, Tonyrefail, CF39 8PA ers yr adeg honno.

Mae'r pwyntiau canlynol yn ymwneud â'r hyn a nodwyd gan bobl yn yr holiaduron AGIC a gwblhawyd a'r hyn a ganfuwyd gennym yn yr arolygiad hwn:

- Nododd ein harsylwadau ar ddiwrnod yr arolygiad ac ymatebion cleifion yn yr holiaduron AGIC a gwblhawyd bod cleifion yn cael eu trin gyda charedigrwydd a thosturi
- Canfuwyd gennym yn gyffredinol bod triniaeth cleifion yn cael ei chynllunio a'i darparu mewn ffordd y bwriadwyd byddai'n sicrhau eu diogelwch a'u lles
- Roedd aelodau'r tîm deintyddol yn eglur am eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau priodol. Hefyd, rhoddwyd y cyfle i aelodau'r tîm ddysgu a datblygu
- Yn gyffredinol, gellir sicrhau cleifion bod y tîm deintyddol yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod amgylchedd y ganolfan ddeintyddol yn ddiogel a bod eu preifatrwydd yn cael ei ddiogelu

Canfuwyd gennym hefyd bod sawl agwedd ar y gwasanaeth y mae angen eu gwella. Y canlynol oedd y rhain:

- Mae'n ofynnol i ddarparwr y gwasanaeth deintyddol roi manylion penodol i AGIC o ran sut a phryd y bydd gwelliannau'n cael eu gwneud i'r trefniadau amgylcheddol sydd ar waith o ran glanhau, gwahanu a diheintio offer yn y ganolfan ddeintyddol
- Mae'n ofynnol i ddarparwr y gwasanaeth deintyddol roi disgrifiad llawn i AGIC o'r trefniadau monitro a sicrhau ansawdd/llywodraethu clinigol parhaus sydd ar waith yn y ganolfan ddeintyddol
- Mae'n ofynnol i ddarparwr y gwasanaeth deintyddol ddangos sut y bydd yn sicrhau bod holl aelodau'r staff yn cael eu goruchwylio a'u cefnogi wrth gyflawni eu swyddogaethau. Mae hyn yn unol â'r Safonau cyfredol ar gyfer Gwasanaethau Iechyd yng Nghymru

- Mae’n ofynnol i ddarparwr y gwasanaeth deintyddol ddangos sut y bydd yn sicrhau bod y staff yn gweithredu gweithdrefn gwynion sy’n cyd-fynd yn llwyr â threfniadau ‘Gweithio i Wella’ GIG Cymru yn y dyfodol
- Mae’n ofynnol i ddarparwr y gwasanaeth deintyddol roi gwybodaeth fanwl i AGIC am y cynllun ailwampio arfaethedig ar gyfer y ganolfan ddeintyddol. Mae hyn er mwyn dangos cydymffurfiad â Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd yng Nghymru

## 5. Canfyddiadau

### *Profiad y Claf*

**Nododd ein harsylwadau ar ddiwrnod yr arolygiad ac ymatebion cleifion yn yr holiaduron AGIC a gwblhawyd bod cleifion yn cael eu trin gyda charedigrwydd a thosturi.**

Cwblhawyd cyfanswm o 21 o holiaduron cleifion AGIC yn ystod yr wythnos cyn yr arolygiad lle rhoddwyd rhybudd, ac roedd pob un ohonynt yn dangos bod y tîm deintyddol yn groesawgar tuag atynt bob amser pan roeddent yn ymweld â'r ddeintyddfa. Roedd tua 50 y cant o'r 21 claf wedi mynychu'r ddeintyddfa'n rheolaidd ers mwy nag 20 mlynedd. Rhoddwyd y sylwadau ysgrifenedig canlynol i ni gan ddau glaf:

*'Mae'r ddeintyddfa bob amser yn gynnes a chroesawgar. Mae eu harddull ffôn yn dda'*

*A*

*'Practis braf iawn ac mae'r staff yn gyfeillgar iawn'*

Hefyd, gwelsom drosom ein hunain y dull caredig a chyfeillgar a fabwysiadir gan aelodau'r tîm staff wrth siarad â chleifion wyneb yn wyneb neu dros y ffôn.

Nodwyd mewn chwe holiadur cleifion a gwblhawyd bod pobl wedi dioddef oedi cyn cael eu gweld gan ddeintydd ar ddiwrnod eu hapwyntiadau, a gwnaeth ddau ohonynt sylwadau ychwanegol yn nodi mai achlysurol y bu oediadau o'r fath.

Datgelodd sgwrs a gafwyd gyda staff cynorthwyol y practis bod apwyntiadau brys yn cael eu darparu i ymateb i anghenion unigol; gwneir pob ymdrech i weld pobl ar y diwrnod iddynt gysylltu â'r ganolfan ddeintyddol. Caiff dyddiad arall priodol ei gynnig pan nad yw hynny'n bosibl. Roeddem yn gallu cadarnhau'r trefniadau hynny yn ystod yr arolygiad pan ymwelodd unigolyn â'r practis gyda phoen deintyddol.

Arweiniodd cwestiwn am a oedd cleifion yn teimlo y rhoddir digon o wybodaeth iddynt am eu hopsiynau triniaeth at sylwadau/ymatebion cadarnhaol yn yr holiaduron a gwblhawyd. Dangosir sampl o'r sylwadau hynny isod (gan fo'r cleifion wedi cytuno i ni eu cynnwys yn yr adroddiad hwn):

*'Oes, mae'n cael ei esbonio bob amser'*

*‘Rwyf wedi bod at nifer o ddeintyddion dros y blynyddoedd, ond hwn yw’r gorau o bell ffordd’*

*A*

*‘Deintydd da iawn’*

Dywedodd saith claf nad oeddent yn gwybod sut i gael mynediad at wasanaethau deintyddol y tu allan i oriau a dywedodd un unigolyn y byddai’n defnyddio’r rhyngrwyd i ddod o hyd i wybodaeth o’r fath. Dangosodd y 14 claf arall eu bod yn ymwybodol o sut i gael gafael ar ofal a thriniaeth y tu allan i oriau os oedd eu hangen. Gwelsom fod rhifau ffôn cyswllt perthnasol ar gyfer gwasanaethau deintyddol y tu allan i oriau wedi’u harddangos mewn ffenestr yn agos at fynedfa’r adeilad.

Datgelodd sgwrs gyda rheolwr y practis y rhoddir cyfle i gleifion gynnig eu safbwyntiau ar wasanaethau a dderbynnir yn y ganolfan ddeintyddol. Fodd bynnag, fe’n hysbyswyd mai anaml y bydd cleifion yn cwblhau’r ffurflenni adborth cleifion sydd ar gael yn nerbynfa’r llawr daear.

Canfuwyd gennym bod gan gleifion fynediad at daflen wybodaeth ac roedd y copïau o hon ar gael yn y dderbynfa. Mae’r daflen yn cynnig gwybodaeth am berchnogaeth y ganolfan ddeintyddol a chost triniaethau’r GIG, ac mae hefyd yn cyfeirio at y ffaith fod triniaeth breifat ar gael.

O’r 21 ymateb i’r holiadur cleifion a dderbyniwyd, roedd 10 yn dangos nad oedd pobl yn gwybod sut i godi pryderon neu wneud cwyn am eu gofal deintyddol. Canfuwyd gennym hefyd nad oedd posteri wedi eu harddangos i gleifion i’w helpu i benderfynu beth i’w wneud pe bai ganddynt bryderon am eu triniaeth ddeintyddol. Roedd poster bach wedi’i lamineiddio’n uchel ar wal yn ystafell aros y llawr daear a oedd yn dangos cyfeiriad gwefan y GIG, ond efallai na fyddai’n rhwydd i rai cleifion ei weld ac nid oes gan bawb fynediad at y rhyngrwyd yn eu bywydau beunyddiol. Hefyd, efallai na fydd cleifion yn dewis cyfathrebu â’r Bwrdd Iechyd yn y modd hwnnw. Arweiniodd archwiliad pellach o’r trefniadau sydd ar waith yn y ganolfan ddeintyddol o ran ymdrin â chwynion at argymhelliad ar gyfer gwella. Gellir gweld manylion hynny yn adran yr adroddiad hwn o’r enw ‘Rheolaeth ac Arweinyddiaeth’ ac yn Atodiad A.

## *Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd yng Nghymru*

### Crynodeb

**Canfuwyd gennym yn gyffredinol bod triniaeth cleifion yn cael ei chynllunio a'i darparu mewn ffordd y bwriadwyd byddai'n sicrhau eu diogelwch a'u lles**

Datgelodd trafodaethau gyda'r deintydd yr ymdrechion a wnaed i gynllunio a darparu gofal a thriniaeth cleifion mewn ffordd y bwriadwyd byddai'n sicrhau eu diogelwch a'u lles. Cyflawnwyd hyn yn rhannol trwy archwilio hanes meddygol cleifion yn ystod pob ymweliad er mwyn sicrhau bod risgiau posibl i'w hiechyd yn cael eu nodi a'u cofnodi.

Dewiswyd a chraffwyd ar sampl o wyth cofnod deintyddol (h.y. pum cofnod cleifion GIG a thri a oedd yn ymwneud â thriniaeth ddeintyddol breifat a gwblhawyd). O ganlyniad, canfuwyd gennym fod cofnodion gofal cleifion yn cynnwys gwybodaeth ddigonol yn gyffredinol am y rheswm am eu hymweliad, symptomau, tystiolaeth o gynllunio triniaeth, opsiynau triniaeth a chaniatâd unigol. Canfuwyd gennym hefyd bod atgyfeiriadau priodol wedi cael eu gwneud at weithwyr proffesiynol eraill fel ymgynghorwyr orthodontig a'r genau a'r wyneb, mewn ymateb uniongyrchol i anghenion a nodwyd cleifion. Canfuwyd gennym hefyd bod sgoriau Archwiliadau Periodontol Sylfaenol (BPE[2]) wedi cael eu cofnodi o ran ymgynghoriadau a gwblhawyd gydag oedolion.

Dangosodd archwiliad o'r sampl o gofnodion cleifion y GIG bod y ganolfan ddeintyddol wedi trefnu ymweliadau ail-alw deintyddol i gleifion yn unol â chanllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE)[3].

Cedwir cofnodion cleifion yn y ganolfan ddeintyddol ar gronfa ddata gyfrifiadurol. Mae'r unig wybodaeth a gynhyrchir ar bapur yn ymwneud â hanesion meddygol newydd neu wedi'u diweddaru. Fe'n sicrhawyd hefyd bod

---

[2]Dull sgrinio deintyddol yw'r BPE a ddefnyddir yng nghyswllt cyflyrau deintgig.

[3]Mae canllaw clinigol ailalw deintyddol NICE yn helpu deinyddion i benderfynu pa mor aml y dylid ailalw cleifion rhwng adolygiadau iechyd y geg sy'n briodol i anghenion cleifion unigol. Mae'r argymhellion yn berthnasol i gleifion o bob oedran sy'n derbyn gofal sylfaenol gan staff deintyddol y GIG yng Nghymru a Lloegr.

gan bob aelod o staff eu cyfrineiriau cyfrifiadur unigryw eu hunain a bod yr holl wybodaeth yn cael ei ategu'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu cynnal ar y system. Fodd bynnag, canfuwyd gennym nad oedd un o'r cypyrddau ffeilio yn y dderbynfa (a oedd yn cynnwys gwybodaeth cleifion) ar glo. Tynnwyd sylw rheolwr y practis at hyn a sicrhaodd bod y cwpwrdd yn cael ei gloi.

Canfuwyd gennym fod y trefniadau ar waith o ran y defnydd o offer pelydr-x yn cyd-fynd â safonau a rheoliadau presennol. Roedd hyn yn cynnwys diweddariadau hyfforddiant i aelodau staff priodol a gweithgarwch archwilio rheolaidd yn gysylltiedig ag ansawdd pelydrau-x deintyddol cleifion.

Mae gan y ganolfan ddeintyddol weithdrefnau priodol ar waith ymdrin ag achosion brys; mae offer dadebru, gan gynnwys cyfarpar Diffibrilio Allanol Awtomatig (AED) ar gael i'w defnyddio fel yr argymhellir gan Gyngor Dadebru'r DU. Dangosodd archwiliad o'r tair ffeil staff hon eu bod wedi derbyn hyfforddiant achos meddygol brys ym mis Ionawr 2014; roedd sesiwn ddiweddaru wedi ei threfnu ar gyfer mis Ionawr 2015.

Canfuwyd bod cyffuriau brys wedi eu storio'n ddiogel gyda'r offer dadebru. Canfuwyd gennym hefyd bod trefniadau priodol ar waith i sicrhau bod cyffuriau y mae eu hoes wedi darfod yn cael eu newid yn brydlon a bod aelod o staff wedi ei hyfforddi i ddefnyddio cymorth cyntaf yn gweithio yn y practis bob amser. Hefyd, roedd archwiliadau dyddiol ar waith i sicrhau bod offer brys yn barod i'w ddefnyddio.

Nodwyd o graffu ar y gweithdrefnau sydd ar waith ar gyfer glanhau a sterileiddio offer (a adnabyddir fel dadhalogi hefyd) bod angen gwella'r broses sydd ar waith. Yn benodol, dim ond un sinc oedd yn y ddeintyddfa llawr daear a neilltuwyd ar gyfer glanhau a rinsio offer, gan fod y sinc arall yn cael ei defnyddio ar gyfer golchi dwylo yn unig. Canfuwyd gennym hefyd ei bod yn ofynnol i'r staff gludo offer (a oedd wedi cael eu glanhau ar ôl eu defnyddio ar gleifion yn yr ystafell triniaeth ddeintyddol), i'r gegin, lle caiff y diheintydd ei gadw.

Caiff yr offer ei gludo gan ddefnyddio bocs plastig. Byddai hwn yn cael ei roi ar ben y diheintydd wedyn gan nad oes arwyneb gwaith i'r staff osod y bocs plastig wrth drosglwyddo'r offer i'r peiriant uwchsonig. Yn yr un modd, pan roedd y cylch diheintio'n gyflawn, byddai'r staff yn defnyddio bocs plastig 'glân' wedyn wedi ei osod ar ben y peiriant i'w galluogi i dynnu'r offer wedi'i ddiheintio o'r diheintydd. Yna, caiff yr offer ei gludo'n ôl i'r ystafell triniaeth ddeintyddol i'w defnyddio eto.

Yn benodol, canfuwyd gennym fod diffyg arwyneb gwaith digonol yn y gegin, y ffaith fod offer 'budr' a 'glân' yn cael eu rhoi ar ben y diheintydd a'r defnydd

cyfunol o'r gegin (i aelodau staff nhewi, i ddatblygu pelydr-x, i baratoi bwyd ac i storio rhai eitemau deintyddol) yn cynyddu'r perygl o groeshalogi. Hefyd, nid oedd unrhyw wahanol eglur o lif gwaith bud i lân ar gyfer glanhau a diheintio offer deintyddol.

Datgelodd sgyrsiau a gafwyd gyda'r deintydd a rheolwr y practis am y materion uchod y disgwyliwyd i'r ganolfan ddeintyddol gael ei hailwampio. Fodd bynnag, ni ddarparodd trafodaethau ffôn gyda dau weithiwr uwch IDH a chraffu ar y cynllun ailwampio arfaethedig ddigon o sicrwydd y byddai gwelliannau'n cael eu gwneud i'r broses o lanhau a dadhalogi offer fel y pennir gan ganllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM)[4] 01-05. Hefyd, ni lwyddodd trafodaethau a gafwyd am weithrediad y gwasanaeth o ddydd i ddydd yn y dyfodol sicrwydd bod gan y darparwr deintyddol unrhyw gynlluniau ar waith i ddangos newid i welliant parhaus i'r ganolfan ddeintyddol tuag at ofynion WHTM 01-05. Fodd bynnag, nododd sgyrsiau gyda'r deintydd bod pob ymdrech yn cael ei gwneud bob amser i sicrhau bod offer deintyddol yn cael ei lanhau, er yr heriau sy'n deillio o amgylchedd y ddeintyddfa; mae disgrifiad llawn o'r broses lanhau yn cael ei ddarparu.

***Argymhelliad***

***Mae'n ofynnol i ddarparwr y gwasanaeth deintyddol roi manylion penodol i AGIC o ran sut a phryd y bydd gwelliannau'n cael eu gwneud i'r trefniadau amgylcheddol sydd ar waith o ran glanhau, gwahanu a diheintio offer yn y ganolfan ddeintyddol.***

Gwelwyd fod gan y ganolfan ddeintyddol offer priodol wedi'i fagio a'i ddyddio i'w ddefnyddio mewn un mis.

Gwelsom hefyd bod offer glanhau â chod lliwiau (mopiau a bwcedi) ar gael, i atal croes-heintio.

Galluogodd craffu ar gofnodion cynnal a chadw i ni gadarnhau bod gan y ganolfan ddeintyddol gontract parhaus ar waith i sicrhau bod gwastraff peryglus yn cael ei drin, ei storio a'i daflu'n briodol.

---

[4] Bwriad Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05 yw codi ansawdd gwaith dadhalogi'n raddol mewn gwasanaethau gofal sylfaenol a deintyddol.

## *Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Canfuwyd gennym yn gyffredinol bod aelodau'r tîm deintyddol yn eglur am eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau priodol. Hefyd, rhoddwyd y cyfle i aelodau'r tîm ddysgu a datblygu.**

Diddymwyd y practis deintyddol blaenorol bedair blynedd yn ôl ar adeg pan brynwyd y busnes gan Integrated Dental Holdings (IDH). Mae IDH wedi cadw cyfrifoldeb cyffredinol am weithrediad y ganolfan ddeintyddol yn 2 Pritchard Street, Tonyrefail, CF39 8PA ers yr adeg honno.

Rheolwr practis profiadol sy'n gyfrifol am redeg y ganolfan ddeintyddol ynghyd â chyfleuster deintyddol arall a weithredir gan IDH yn ardal Cwm Taf. O ganlyniad, caiff y gwaith o redeg y gwasanaeth yn Nhonyrefail o ddydd i ddydd ei wneud gan unigolyn yn y swydd derbynnydd/cynorthwyydd practis, wedi gweithio yn y ganolfan ddeintyddol ers bron i ddeng mlynedd ar hugain.

Canfuwyd gennym yn gyffredinol bod y gwasanaeth yn gweithredu trwy ddefnyddio amrywiaeth o systemau a phrosesau rheoli sefydledig i sicrhau bod gofal a thriniaeth cleifion yn cael eu darparu'n ddiogel ac yn brydlon.

Fodd bynnag, dim ond yn ystod Ionawr ac Ebrill 2014 yr oeddem ni'n gallu cadarnhau bod y gweithgarwch archwilio o ran iechyd a diogelwch a dadhalogi offer wedi cael ei gwblhau. Ni chynhaliwyd unrhyw archwiliadau pellach. Nid oedd yn eglur chwaith a oedd yr holl gamau gwella a awgrymwyd gan reolwr cydymffurfiad blaenorol IDH yn ystod ymweliad mis Ebrill 2014 wedi ei gwblhau. Mae archwiliadau rheolaidd (tri misol) o ofynion rheoli heintiau yn ofynnol yn unol ag WHTM 01-05.

***Argymhelliad***

***Mae'n ofynnol i ddarparwr y gwasanaeth deintyddol roi disgrifiad llawn i AGIC o'r trefniadau monitro a sicrhau ansawdd/llywodraethu clinigol parhaus sydd ar waith yn y ganolfan ddeintyddol.***

Fe'n hysbyswyd gan y derbynnydd i ni siarad â hi ei bod yn teimlo ei bod yn cael ei chefnogi yn ei gwaith. Dywedodd wrthym hefyd ei bod yn mynychu cyfarfodydd staff gyda'r deintydd a rheolwr y practis bob pedair wythnos, gyda staff mewn practis deintyddol IDH arall. Defnyddir cyfarfodydd o'r fath i gyfleu gwybodaeth newydd/perthnasol i'r timau deintyddol priodol ac i annog trafodaeth am ofal a thriniaeth cleifion. Ni edrychwyd ar unrhyw nodiadau a gymerwyd yn y digwyddiadau hynny.

Cawsom sgwrs gryno gyda'r nyrs ddeintyddol a oedd yn gweithio ar ddiwrnod yr arolygiad gan ganfod ei bod wedi cael ei chyflogi gan IDH yn ystod y misoedd diwethaf. Dywedodd wrthym ei bod wedi dechrau hyfforddiant tuag at gymhwyster deintyddol perthnasol ers hynny ac y darparwyd cyfnod sefydlu cychwynnol iddo ddod yn gyfarwydd â'r prosesau a'r gweithdrefnau yn y gweithle. Fodd bynnag, nododd rheolwr y practis bod y nyrs ddeintyddol yn gweithio yn y ddeintyddfa IDH arall yn ardal Cwm Taf fel rheol a'i bod yn darparu cymorth dros dro yn unig i'r ganolfan ddeintyddol tra bod y nyrs ddeintyddol hyfforddedig sy'n gweithio yno fel rheol yn absennol.

Dangosodd sgwrs gyda rheolwr y practis bod aelodau staff yn gallu trafod materion arfer a pherfformiad â hi yn rheolaidd. Dywedodd wrthym y darperir gwerthusiad blynyddol i staff fel ffordd o ganolbwyntio ar eu perfformiad dros y flwyddyn ddiwethaf a nodi anghenion hyfforddiant ar gyfer y flwyddyn i ddod. Fodd bynnag, canfuwyd gennym nad oedd rheolwr y practis wedi derbyn gwerthusiad blynyddol oherwydd newid i'r rheolwr ardal IDH sydd wedi ei neilltuo i'r ganolfan ddeintyddol.

***Argymhelliad***

***Mae'n ofynnol i ddarparwr y gwasanaeth deintyddol ddangos sut y bydd yn sicrhau bod holl aelodau'r staff yn cael eu goruchwylio a'u cefnogi wrth gyflawni eu swyddogaethau. Mae hyn yn unol â'r Safonau cyfredol ar gyfer Gwasanaethau Iechyd yng Nghymru.***

Canfuwyd gennym fod staff yn derbyn cefnogaeth briodol o ran eu datblygiad proffesiynol parhaus; darperir hyfforddiant trwy amrywiaeth o becynnau e-ddysgu trwy system IDH Academy ynghyd â chyfleoedd i fynychu sesiynau dysgu perthnasol a ddarperir gan ffynonellau allanol. Fe'n hysbyswyd hefyd am y pwyslais sy'n cael ei roi ar hyfforddi staff o ran diogelu (oedolion a phlant).

Canfuwyd o graffu ar amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau ysgrifenedig sydd ar waith bod gan staff fynediad rhwydd at ganllawiau cyfredol a pherthnasol ar arferion gweithio diogel.

Canfuwyd gennym fod y polisi cwynion (pryderon) sydd ar waith yn cyd-fynd â 'Gweithio i Wella'[5]. Fodd bynnag, nid oedd y polisi'n cyd-fynd â dogfen ar

---

[5] Ym mis Ebrill 2011, cyflwynodd Llywodraeth Cymru drefniadau newydd ar gyfer rheoli pryderon: *Gweithio i Wella.* Ei nodi oedd ei gwneud yn haws i gleifion a gofalwyr i godi pryderon, i gael eu cynnwys a'u cefnogi yn ystod y broses; i gael eu trin yn agored ac yn onest;

wahân y ganolfan ddeintyddol o'r enw 'Cod Ymarfer ar gyfer Cwynion Cleifion'. Yn benodol, roedd yr amserlenni ar gyfer cydnabod cwynion yn hwy na'r rhai a nodir yn 'Gweithio i Wella'. Hefyd, archwiliwyd manylion cwyn a wnaed i'r ganolfan ddeintyddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a chanfuwyd nad oedd y claf dan sylw wedi derbyn cydnabyddiaeth o'i gŵyn nac ateb boddhaol i'r mater yn unol â'r amserlenni gofynnol. Ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth i ni chwaith o unrhyw ohebiaeth yn rhybuddio'r claf am unrhyw oedi tybiedig cyn datrys y mater yr oedd wedi ei godi. Canfuwyd gennym hefyd nad oedd unrhyw bosteri wedi'u harddangos yn yr ystafelloedd aros i gynnig gwybodaeth i gleifion am sut y gallant godi unrhyw bryderon/cwynion am eu gofal neu driniaeth. Fodd bynnag, gwnaeth rheolwr y practis drefniadau i gael gafael ar bosteri o'r fath ar ddiwrnod yr arolygiad.

***Argymhelliad***

***Mae'n ofynnol i ddarparwr y gwasanaeth deintyddol ddangos sut y bydd yn sicrhau bod y staff yn gweithredu gweithdrefn gwynion sy'n cyd-fynd yn llwyr â threfniadau 'Gweithio i Wella' GIG Cymru yn y dyfodol.***

Archwiliwyd sampl o gofnodion damweiniau. Bu un digwyddiad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn ymwneud ag aelod o staff. Roedd y llyfr damweiniau a ddefnyddir yn cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data.

Dateglodd archwiliad o amrywiaeth o dystysgrifau cynnal a chadw a gedwir yn y practis bod systemau a phrosesau rheoli priodol ar waith i sicrhau bod yr holl offer yn cael ei archwilio'n brydlon ac yn unol â gofynion gorfodol.

---

ac i gyrff ddangos yr hyn a ddysgwyd o pan aeth pethau o'i le neu fod angen i safonau wella. http://www.wales.nhs.uk/sites3/w-home.cfm?orgid=932

## *Ansawdd yr Amgylchedd*

**Yn gyffredinol, gellir sicrhau cleifion bod y tîm deintyddol yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod amgylchedd y ganolfan ddeintyddol yn ddiogel a bod eu preifatrwydd yn cael ei ddiogelu.**

Mae canolfan ddeintyddol Tonyrefail yn bractis sefydledig. Mae lleoedd parcio ar gael ar hyd y briffordd lle mae'r practis wedi'i leoli. Gall cleifion ag anawsterau symudedd gael mynediad at adeilad y practis. Mae hyn gan fod prif ddrws y safle'n hygyrch i gadeiriau olwyn er y gallai rhai cleifion gael anawsterau'n symud eu cadeiriau olwyn ar draws stribed fetel sydd wedi'i chodi ychydig wrth y fynedfa. Hefyd, mae'r un ystafell driniaeth/deintyddfa ar gyfer cleifion wedi'i lleoli ar y llawr daear.

Ystyriwyd gennym yn ystod yr ymweliad arolygu a yw'r cyfleusterau clinigol sydd ar gael yn y ganolfan ddeintyddol yn cydymffurfio â safonau cyfredol ar gyfer gwasanaethau iechyd yng Nghymru - fel yr amlinellir yn y ddogfen o'r enw Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well[6]. Cadarnhaodd ein harsylwadau bod y cyfleusterau a'r offer yn y ddeintyddfa llawr daear yn addas, er bod arwynebau gwaith yn anniben oherwydd y lle storio/cypyrddau cyfyngedig sydd ar gael. Roedd darparwr y gwasanaeth deintyddol wedi prynu cadair ddeintyddol newydd ar gyfer y ddeintyddfa'n ddiweddar. Fodd bynnag, ystyried bod gweddill yr amgylchedd dad do yn amhriodol yn gyffredinol, ac nid oedd yn cydymffurfio â safon 12.

Mae derbynfa'r ganolfan ddeintyddol wedi'i lleoli ar y llawr daear ynghyd â lle i ddim ond un claf eistedd ac aros gan fod mwyafrif y lle'n cael ei gymryd gan ddesg y dderbynfa a'r cypyrddau cofnodion cleifion metel lefel isel. Prin yw'r lle y mae'r man y tu ôl i ddesg y dderbynfa yn ei gynnig i aelodau staff weithio ynddo gan nad oes unrhyw le arall i storio offer dadebru a chypyrddau ffeilio. Canfuwyd fod y golau yn y man hwnnw'n bŵl.

Datgelodd taith o gwmpas lawr daear yr adeilad gegin a thoiled staff y tu hwnt i'r un ddeintyddfa a ddefnyddir. Mae'r gegin yn glos ac yn anniben iawn, roedd paent yn pilio oddi ar y waliau ac roedd yn ymddangos bod angen glanhau'r ystafell gyfan. Nid oedd unrhyw arwyneb gwaith ar gael i staff ei ddefnyddio,

---

[6] http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/safonau-ar-gyfer-gwasanaethau-iechyd-cym
Mae'r Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd yng Nghymru wedi'u seilio ar ganllawiau ategol. Mae canllawiau penodol ar bob safon unigol (1 – 26) ar gael yn y ddogfen hon.

gan fod yr holl arwynebau'n cael eu defnyddio ar gyfer offer sy'n gysylltiedig â'r ddarpariaeth o ofal deintyddol. Roedd hefyd yn ofynnol i aelodau staff ddefnyddio'r 'gegin' i fwyta ac yfed ar gyfnodau seibiant ac i newid i'w gwisgoedd o'u dillad 'awyr agored' heb unrhyw breifatrwydd, yn enwedig gan fod panel o wydr clir yn y drws rhwng y gegin a'r ddeintyddfa. Roedd y golau yn y gegin yn bŵl.

***Argymhelliad***

***Mae'n ofynnol i ddarparwr y gwasanaeth deintyddol roi gwybodaeth fanwl i AGIC am y cynllun ailwampio arfaethedig ar gyfer y ganolfan ddeintyddol. Mae hyn er mwyn dangos cydymffurfiad â Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd yng Nghymru.***

Gwelwyd o arsylwi'r ystafelloedd ar y llawn cyntaf nad oedd yr ail ddeintyddfa/ystafell driniaeth wedi cael ei defnyddio ers cryn amser, a'i bod yn cael ei defnyddio at ddibenion storio yn hytrach. Roedd y man aros i gleifion nesaf at yr ystafell honno'n lân ac roedd cadeiriau yno ar gyfer tua wyth o bobl. Roedd toiled i gleifion ei ddefnyddio hefyd. Fodd bynnag, er ei bod yn ymddangos bod y toiled yn lân ac yn hylan, roedd nifer o ymylon tolciog yn y bin gwastraff plastig a allai achosi anaf i gleifion neu staff. Tynnwyd sylw rheolwr y practis at hyn a gytunodd i sicrhau bod y bin yn cael ei newid.

Roedd maint cyfunol y mannau aros yn y ddeintyddfa'n briodol ar gyfer nifer y deintfeydd a oedd yn cael eu defnyddio ar adeg ein harolygiad. Fodd bynnag, fe'n hysbyswyd bod disgwyl i'r ddeintyddfa ar y llawr cyntaf (nad yw'n cael ei defnyddio) gael ei hailwampio i hwyluso gwaith hylenydd. Mae'n debygol felly y gallai'r mannau aros presennol fod yn annigonol ar yr adeg honno.

Canfuwyd bod diffoddwyr tân a gedwir yn yr adeilad yn ddiogel a'u bod wedi cael eu harchwilio gan yr awdurdod tân. Hefyd, gwelsom hysbysiadau wedi'u harddangos yn yr adeilad yn rhybuddio cleifion a staff am yr hyn y dylent ei wneud pe bau tân.

Canfuwyd gennym hefyd bod rhagofalon diogelwch ar waith i atal mynediad heb awdurdod i rannau o'r adeilad na ddefnyddir gan gleifion.

Arddangosir enw a chymwysterau'r deintydd sy'n gweithio yn y ganolfan ynghyd â rhif cyswllt 'y tu allan i oriau' yn eglur ar wal allanol/ffenestr yr adeilad i hysbysu cleifion sy'n dod i gael triniaeth.

## 6. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella o ran Canolfan Ddeintyddol Tonyrefail. Mae manylion hwn i'w gweld yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yng Nghanolfan Ddeintyddol Tonyrefail yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Caiff y cynllun gwella, unwaith y caiff ei gytuno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: Canolfan Ddeintyddol Tonyrefail

## Dyddiad yr Arolygiad: 11 Tachwedd 2014

| Rhif Tudalen | Argymhelliad | Camau gan y Bwrdd Iechyd | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | **Profiad y Claf** | | | |
| | Dim | | | |
| | **Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd yng Nghymru** | | | |
| Tudalen 10 | Mae'n ofynnol i ddarparwr y gwasanaeth deintyddol roi manylion penodol i AGIC o ran sut a phryd y bydd gwelliannau'n cael eu gwneud i'r trefniadau amgylcheddol sydd ar waith o ran glanhau, gwahanu a diheintio offer yn y ganolfan ddeintyddol. | | | |
| | **Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | |

| Rhif Tudalen | Argymhelliad | Camau gan y Bwrdd Iechyd | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Tudalen 11 | Mae'n ofynnol i ddarparwr y gwasanaeth deintyddol roi disgrifiad llawn i AGIC o'r trefniadau monitro a sicrhau ansawdd/llywodraethu clinigol parhaus sydd ar waith yn y ganolfan ddeintyddol. | | | |
| Tudalen 12 | Mae'n ofynnol i ddarparwr y gwasanaeth deintyddol ddangos sut y bydd yn sicrhau bod holl aelodau'r staff yn cael eu goruchwylio a'u cefnogi wrth gyflawni eu swyddogaethau. Mae hyn yn unol â'r Safonau cyfredol ar gyfer Gwasanaethau Iechyd yng Nghymru. | | | |
| Tudalen 13 | Mae'n ofynnol i ddarparwr y gwasanaeth deintyddol ddangos sut y bydd yn sicrhau bod y staff yn gweithredu gweithdrefn gwynion sy'n cyd-fynd yn llwyr â threfniadau 'Gweithio i Wella' GIG Cymru yn y dyfodol. | | | |
| | **Ansawdd yr Amgylchedd** | | | |
| Tudalen | Mae'n ofynnol i ddarparwr y gwasanaeth | | | |

| Rhif Tudalen | Argymhelliad | Camau gan y Bwrdd Iechyd | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| 15 | deintyddol roi gwybodaeth fanwl i AGIC am y cynllun ailwampio arfaethedig ar gyfer y ganolfan ddeintyddol. Mae hyn er mwyn dangos cydymffurfiad â Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd yng Nghymru. | | | |

**Cynrychiolydd y Practis:**

**Enw (printiwch):** ......................................................................................

**Teitl:** ......................................................................................

**Llofnod:** ......................................................................................

**Dyddiad:** ......................................................................................